# Adroddiad Blynyddol gan Gynghorydd 2016/17

Hwn yw'r adroddiad gan y Cynghorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

**Cynghorydd: Dylan Wyn Rees**
**Grŵp: Plaid Cymru – the Party of Wales** **Ward: Canolbarth Môn**

## 1 – Rôl a Chyfrifoldebau

| Rhwng Ebrill 2016 a Mawrth 2017, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol: | [1]Ffigyrau Presenoldeb |
|---|---|
| Y Cyngor | 9 (100%) |
| Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio | 8 (89%) |
| Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd | 2 (50%) |
| Cydbwyllgor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) Cadeirydd | 3 (100%) |
| Panel Rhiant Corfforaethol | 4 (100%) |
| Mae'r ystadegau a ddarperir yn berthnasol yn unig i'r pwyllgorau a restrir yn y tabl hwn. Nid yw'r ystadegau'n cynnwys presenoldeb mewn cyfarfodydd eraill sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir. Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau – fel deilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft. | |

Rwyf yn aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ac wedi mynychu 3 cyfarfod (75%). Rwyf hefyd yn aelod o Bwyllgor Grantiau Cyffredinol yr Ymddiriedolaeth. Yn ogystal rwyf yn aelod o'r Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion sy'n is-banel Sgriwtini.

| Rwy'n cynrychioli'r Cyngor ar y cyrff allanol canlynol: | Nifer y cyfarfodydd a drefnwyd | Nifer a fynychwyd |
|---|---|---|
| Cyngor Iechyd Cymuned – Cyfarfodydd Pwyllgor Lleol Ynys Môn a'r Cyngor Llawn | 7 | 4 |

## 2 - Gweithgareddau yn yr Etholaeth

Yn ogystal ag eistedd ar y pwyllgorau uchod byddaf hefyd yn mynychu nifer o gyfarfodydd eraill yn fy ward yn rheolaidd, yn cynnwys:

Cyfarfodydd Cynghorau Tref a Chymuned – Rwyf yn Gynghorydd Tref ar Gyngor Tref Llangefni (mynychais 13 o gyfarfodydd y Cyngor llawn allan o 13 = 100%) ac

[1] Darparwyd y ffigyrau presenoldeb gan Gyngor Sir Ynys Môn.

rwyf hefyd wedi cymryd y prif gyfrifoldeb ymysg tri Chynghorydd Canolbarth Môn am fynychu Cyngor Cymuned Bodffordd (mynychais 7 allan o 11 o gyfarfodydd – 64%).

Rwyf hefyd yn mynychu cyfarfodydd Cyngor Cymuned Bryngwran a Threwalchmai o bryd i'w gilydd, er mai fy nghyd Gynghorwr Canolbarth Môn, Bob Parry, yw'r prif gynrychiolydd ar y pwyllgor hwn.

Cyfarfodydd Llywodraethwr Ysgol – Rwy'n llywodraethwr ysgol yng Nghanolfan Addysg y Bont ac yn Is-gadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr yn Ysgol Gymuned Bodffordd.

Tair blynedd yn ôl cefais fy apwyntio yn aelod o Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru sy'n un o'r wyth corff sy'n craffu gwaith y Gwasanaeth Iechyd yng Nghymru ar ran y cyhoedd a chleifion. Fel rhan o'm swyddogaeth rwyf wedi bod yn rhan o archwiliad 'Gofal ar Iechyd' a drefnwyd yn ddi rybydd mewn ysbyty. Rwyf hefyd wedi bod yn cynorthwyo gydag arddangosfeydd cyhoeddus i godi ymwybyddiaeth am waith y Cyngor Iechyd.

Rwyf hefyd yn ymwneud â gwaith sawl corff arall yn lleol gan gynnwys:

- Aelod o Ymddiriedolaeth y Wiwer Goch yng Nghymru sydd wedi gwneud gwaith arbennig yn Ynys Môn i ail sefydlu cynefinoedd i'r wiwer goch a difa'r wiwer llwyd.
- Rwyf yn ysgrifennydd ymddiriedolwyr Gobaith Môn, elusen sy'n hyrwyddo gwaith Cristnogol ymhlith ieuenctid yn Ynys Môn. Ar hyn o bryd mae gweithwyr ieuenctid Gobaith Môn yn gweithio gyda staff Ysgolion Uwchradd Caergybi a Syr Thomas Jones, Amlwch.
- Rwy'n aelod o bartneriaeth Llangefni a sefydlwyd yn ddiweddar, sy'n gweithio i ddod â gwahanol gyrff a'r cyhoedd at ei gilydd er mwyn adfywio Llangefni. Ar hyn o bryd rwy'n aelod o'r Grŵp Twristiaeth a Diwylliant.

Yn ystod y llynedd roeddwn yn parhau i weithredu fel Deilydd Portffolio Cysgodol ar gyfer "Datblygu'r Economi, Hamdden a Thwristiaeth" fel rhan o wrthblaid Plaid Cymru. Bûm yn mynychu cyfarfodydd briffio'n rheolaidd rhwng y Pennaeth Gwasanaeth a'r deilydd Portffolio.

Yn ogystal â mynychu amrywiol gyfarfodydd, mae gennyf hefyd lwyth gwaith sylweddol wrth i mi geisio gwneud gwaith ar ran etholwyr. Dyma rai esiamplau o'r mathau o achosion yr wyf wedi delio â hwy dros y 12 mis diwethaf:

- Cynllunio – gwrthwynebiadau i geisiadau a chymorth gyda cheisiadau
- Tai – darparu cyngor a chymorth ynglŷn â'r polisi gosod a chynorthwyo cleientiaid sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, neu sy'n gwneud cais am lety arall.
- Priffyrdd – cwynion ynglŷn â pharcio, â gyrru.
- Rheoli Gwastraff – cwynion ynghylch casglu gwastraff ac adnewyddu biniau ailgylchu.
- Amgylchedd – cwynion ynghylch llwybrau cyhoeddus, torri coed a gwaredu ysbwriel yn anghyfreithlon.

Er mwyn i mi fod ar gael i fy etholwyr rwyf wedi creu fy nhudalen Facebook fy hun. Ynghyd â fy nau Gyd-gynghorydd Canolbarth Môn rwyf hefyd wedi dechrau cynnal cymorthfeydd yn Llangefni i ddarparu cyngor.

**3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Yn ystod y 12 mis diwethaf rwyf wedi bod yn brysur iawn fel Cadeirydd Prosiect Parc Chwaraeon Trefol Llangefni. Ar ddydd Gwener 17 Chwefror, 2017, dwy flynedd ar ôl dechrau'r cynllun, cyhoeddwyd bod yr holl gyllid ar gyfer y gwaith wedi'i sicrhau. Roedd hyn yn cynnwys £385,295 o'r Gronfa Loteri Fawr, a chyllid arian cyfatebol o £37,500 gan Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn. Golyga hyn bod modd symud ymlaen gyda'r gwaith o adeiladu'r Parc Chwaraeon Trefol. Mae'r gwaith i fod i ddechrau ym Medi 2017 ai gwblhau cyn diwedd y flwyddyn. Mi fydd y Parc yn adnodd arbennig i bawb yn gymunedol. Yn ogystal â lle pwrpasol ar gyfer sglerfyddwyr, beiciau BMX a scwters, bydd yr adnodd hefyd yn cynnwys lle ar gyfer pêl fasged, wal ddringo a champfa awyr agored.

Dros yr 18 mis diwethaf, fwyf wedi bod yn Aelod o bwyllgor codi arian Llangefni a Rhosmeirch ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol ym Modedern. Roedd gennym darged o £22,500 a llwyddwyd i godi £28,460. Roedd hyn yn ymdrech arbennig gan bawb.

**4 - Dysgu a Datblygu**

Rwyf wedi mynychu'r mentrau dysgu a datblygu canlynol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (gwybodaeth wedi'i darparu gan Gyngor Sir Ynys Môn):

| | |
|---|---|
| Cyfraith Cyflogi | 10/11/2016 |
| Rheoli Absenoldeb Salwch | 28/11/2016 |
| Sesiynau Briffio Aelodau (19 allan o 23 = 83%) | Ebrill 2016– Mawrth 2017 |

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rwyf wedi cwblhau cwrs ar "Arweinyddiaeth Wleidyddol gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

**5 – Gweithgareddau a Materion Eraill**

Fel y gallaf wasanaethu fy etholwyr yn y ffordd orau rwy'n cydnabod bod angen i mi ymgysylltu cymaint ag sy'n bosibl yn y gymuned. O ganlyniad rwy'n mynychu gwahanol ddigwyddiadau diwylliannol/cymunedol a digwyddiadau cyhoeddus yn rheolaidd e.e.

**Digwyddiadau Diwylliannol** - Cyngerdd Eisteddfod yr Urdd yn Ysgol Uwchradd Bodedern, cyngerdd Gwenan Gibbard yng Nghanolfan Rhosmeirch, lansiad CD Bara Brith yn neuadd Eglwys Cyngar Sant, Eisteddfod Talwrn a nosweithiau'n agor amrywiol arddangosfeydd yn Oriel Môn. Cyngerdd Mawreddog yng Nghapel Moreia, Llangefni a chyngerdd elusennol yn y Ganolfan ym Modffordd.

**Digwyddiadau Cymdeithasol a Chymunedol** –

Carnifal Llangefni, Rali Ffermwyr Ifanc ym Mona, Cyngherddau Nadolig yn Ysgol Gymuned Bodffordd, Canolfan Addysg y Bont ag Eglwys Sant Llwydian.

**Digwyddiadau Cyhoeddus**

Agoriad swyddogol rhan gyntaf o Ffordd Gyswllt Llangefni, cyfarfod blynyddol Mudiad Ffermwyr Ifanc Ynys Môn, cyfarfod blynyddol Ymddiriedolaeth y Wiwer Goch Cymru, cyfarfod blynyddol Cymunedau'n Gyntaf, arddangosfa Carchar Berwyn yn Pontio, ymgynghoriad Grid Cenedlaethol yn Nhalwrn, agoriad swyddogol cangen leol y Samariaid.

Ceir rhagor o wybodaeth amdanaf yma:

http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/mgUserInfo.aspx?UID=267&LLL=1

| | |
|---|---|
| **Y Cynghorydd Dylan Rees** | **Ebrill 2017** |